# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-11-08 (p1): 25 Mehefin 2008**

## Atodiad D

## Gwrthwynebiad Cymdeithas yr Iaith I Hysbysiad Cau Ysgol Mynyddcerrig

1(1)  Gwrthodwn ddilysrwydd yr holl broses hon o "ymgynghori" gan ei bod yn amlwg drwy'r ddogfen ymgynghori wreiddiol mai'r bwriad yw gweithredu dymuniad y Cyngor i gau'r ysgol. Nid oes unrhyw ymgais bellach gan y Cyngor i ddilyn unrhyw broses o ymgynghori onest a dilys. Ymateb llethol rhieni, llywodraethwyr a phentrefwyr yw credu na wna'r Cyngor wrando ar unrhyw farn arall.

1(2) Gwrthwynebwn yr ymdrech a wnaed gan y Cyngor i gyfyngu ymgynghori i'r lleiafswm posibl trwy gynnig mis yn unig i ystyried holl ddyfodol yr ysgol a thrwy ddanfon eu dogfen yn unig at y cyrff hynny sy raid (gw Adran 5) - yn hytrach na cheisio arwain trafodaeth agored ac onest yn y gymuned leol fel y gwna swyddogion Ceredigion a Gwynedd. Ni chredwn fod y penderfyniad canlynol, tan bwysau, I estyn y cyfnod hyd fis arall wedi bod yn gam ystyrlon gan fod y mis hwnnw'n ystod diwedd Gorffennaf/Awst tra roedd ysgolion ar gau a llywodraethwyr heb fedru cyfarfod yn rhwydd.

1(3)  Gwrthodwn ddilysrwydd yr ymgynghori gan fod y Cyngor yn rhuthro i mewn i ystyried dyfodol yr ysgol ( yn groes i Linell Amser ei strategaeth ei hunan ) tra bo nifer y disgyblion ar ei isaf. Mae'r Cyngor yn gwybod yn iawn mai dyma nifer anarferol o isel o blant yn yr ysgol, ac y bydd y cynlluniau agos i godi tai fforddiadwy yn y pentref yn golygu cynnydd cynaladwy yn nifer y disgyblion. Trwy weithredu'n awr y mae'r Cyngor am geisio mantais amser byr yn lle bwrw golwg amser hir ar gynaladwyedd yr ysgol.

1(4) Gwrthodwn y rhesymeg o geisio penderfynu ar dynged Ysgol Mynyddcerrig mewn gwagle. Yn ol llinell amser strategaeth y Cyngor ei hun yr oedd angen ystyried dyfodol addysg gynradd yn ardal Pontyberem/Bancffosfelen/Mynyddcerrig. Nid yw'n gwneud synnwyr i ystyried dyfodol Ysgol Mynyddcerrig ar wahan i'r ddwy arall gan fod atebion alternatif i gau'r ysgol yn ymwneud ag ystyried perthynas Mynyddcerrig â'r ddwy ysgol arall. Yn wir y mae'r ddogfen hon (adran 4.2) yn tanlinellu diffyg synnwyr trin Ysgol Mynyddcerrig ar wahan. Sut y gellir trafod yn rhesymol perthynas Mynyddcerrig gyda Bancffosfelen os yw dyfodol Bancffosfelen i'w drafod mewn ychydig o fisoedd ? Nid oes unrhyw resymeg o gwbl i drafod dyfodol Mynyddcerrig ar wahan mewn gwagle ychydig o fisoedd cyn y gallesid fod wedi trafod dyfodol addysg gynradd yr holl ardal.

1(5) Gwrthodwn ddilysrwydd y ddogfen ymgynghori gan nad oes unrhyw ymdriniaeth deg na chytbwys gydag unrhyw un o'r 9 opsiwn honedig, heblaw am hoff opsiwn 9 y Cyngor ei hun y rhoddir cymaint o ofod ac ystyriaeth iddo. Yn wir y mae adrannau 4.2, 4.3 a 4.5 yn annilysu hefyd ymarferion ymgynghori yn y dyfodol oherwydd eu bod yn ceisio tanseilio ysgolion na bu eto unrhyw drafod na phenderfyniad ar eu dyfodol ac ymhle y mae llywodraethwyr yn ceiso cyflawni eu dyletswyddau statudol ar waethaf y tanseilio hwn gan y Cyngor sydd i fod yn gefn iddynt.

1(6) Anghredadwy - gan Gymdeithas yr Iaith a'r gymuned leol - yw'r modd y bu I'r Bwrdd Gweithredol drin ac ystyried y miloedd o eiriau o ymatebion a dderbyniwyd I'r ddogfen ymgynghorol. Cynhyrchwyd ymatebion cryno gan y Swyddogion Addysg I'r hollwrthwynebiadau a godwyd I ddymuniad amlwg y Cyngor I gau'r ysgol, ac yna derbyniwyd argymhelliad y swyddogion gan y Bwrdd mewn cyfarfod heb air o drafodaeth, na rhoi cyfle I'r Cyngor llawn drafod y mater. Mae'r holl ymagwedd dilornus hwn tuag at y broses ymgynghori wedi dwyn anfri difrifol ar yr holl broses ddemocrataidd yn lleol. Os caniateir I'r Cyngor gymryd cam difrifol o gau ysgol ar sail yr ymarferiad gwarthus hwn, ni bydd unrhyw ffydd yn y dyfodol mewn prosesau ymgynghori. Mae'n amlwg fod y swyddogion yn credu - yn gam neu'n gymwys - fod ganddynt carte blanche gan Lywodraeth y Cynulliad I gau degau o ysgolion pentrefol Cymraeg, ac y gallant drin yr holl broses ymgynghori'n ysgafn bellach. Yn wir, mae'n amlwg mai rhan o strategaeth y swyddogion yw meithrin ymhlith rhieni yr ymwybyddiaeth nad oes diben mewn ymgymryd a phrosesau ymgynghori gan fod yr ysgolion yn sicr o gael eu cau beth bynnag. O ganlyniad, gobaith y swyddogion yw y bydd rhieni'n symud eu plant o'u gwirfodd o'r ysgolion a'u cau'n ymarferol ac osgoi'r angen am yr hyn a wel y swyddogion fel "niwsans" ymgynghori. Mae'n bryd I Lywodraeth y Cynulliad roi terfyn ar agwedd "cavalier" y Cyngor Sir tuag at ddemocratiaeth leol, a cheisio adfer ffydd mewn prosesau ymgynghori.

2(1) Datganwn y gellir orau sicrhau dyfodol cynaladwy a llwyddiannus i addysg gynradd ym Mynyddcerrig trwy hybu cydweithio rhwng Ysgolion Mynyddcerrig, Bancffosfelen a Phontyberem hyd at greu ysgol ffedereiddiedig aml-safle.

2(2) Credwn fod y Cyngor wedi annilysu ymhellach y broses ymgynghori trwy anwybyddu unrhyw ddadansoddiad proffesiynol o'r opsiwn gan ddibynnu - lle cyfeirir ato o gwbl - at ychydig o sylwadau dilornus.

2(3) Ni sonnir y gellid sicrhau'r holl fanteision addysgol y sonnir amdanynt yn opsiwn 9 - cronni arbenigedd mwy o staff, rhagor o gyfathrach rhwng plant - hefyd yn opsiwn 7. Eto, yn adran 2.3 cyfeirir at y cyfyngiadau addysgol sydd i nifer bach o ddisgyblion heb gyfeirio sylw at bosibiliad cyfathrach gyda phlant ysgolion cyfagos.

2(4) Nid yn unig fod y Cyngor wedi annilysu'r broses ymgynghori trwy beidio a dadansoddi opsiwn ffedereiddio, ond y mae hefyd wedi mynd yn gwbl groes i ganllaw'r Cynulliad Cenedlaethol ( o ran archwilio pob opsiwn heblaw am gau ysgol ) trwy ymwadu a'i holl gyfrifoldeb i arwain trafodaeth o'r fath. Dim ond 5 brawddeg gwta (4.7) sydd gan y Cyngor i ddadansoddi'r opsiwn a dywed mai cyfrifoldeb yr ysgol yw sefydlu perthynas gyda phartneriaid a chreu cynllun o'r fath. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu arwain unrhyw archwiliad o'r fath a disgwylir i lywodraethwyr gwirfoddol yr ysgol gyflawni'r gamp o fewn y cyfnod o fis o ymgynghori. Mae ymateb y Cyngor, a'r ymwadiad cyfrifoldeb, mor chwerthinllyd nes dwyn anfri ar yr holl broses o ymgynghori gan wawdio cyfarwyddyd y Cynulliad i chwilio pob alternatif i gau ysgol. Cred y Cyngor mai digon yw rhestru atebion eraill heb unrhyw ddadansoddiad. Mae hwn yn achos

cam-weinyddu difrifol ar ran y swyddogion. Credwn mai cyfrifoldeb y Cyngor yw arwain trafodaeth ystyrlon o'r fath. Mae'r Cyngor Sir naill ai wedi camddeall neu wedi anwybyddu ei rol yn y mater hwn. Nid rol y Cyngor Sir yw disgwyl - fel yr honnant yn eu hymateb I sylwadau ar y Ddogfen Ymgynghori - I lywodraethwyr ffufio o fen mis neu ddau o ymgynghori Gynllun Busnes manwl o ran creu ysgol ffedereiddiedig. Na, rol y Cyngor fu arwain y drafodaeth ac archwilio'r opsiwn mewn modd proffesiynol. Yr unig eithriad a ganiateir I hyn yw os bydd yn amlwg o'r cychwyn na allai ffederasiwn fod yn hyfyw. Ond mae Mynyddcerrig/Bancffosfelen yn uned hanesyddol o dua 95 o blant ar gyfartaledd, ac ond wedi syrthio o dan 60 disgybl oherwydd yr ansicrwydd presennol. Mae creu ffederasiwn 3 ysgol yn uned gryfach fyth. Rhaid casglu felly mai camgymeriad o ran proses oedd peidio ag archwilio'r opsiwn yn fanwl, ac ni all y Cyngor ymwadu a'r cyfrifoldeb trwy 4 brawddeg ystrydebol mewn dogfen ymgynghorol heb ddwyn anfri ar yr holl ymarferiad". "

**Datganwn fod yr holl broses yn annilys oherwydd y diffyg hwn.**

2(5) Nid yn unig nad yw'r Cyngor yn arwain y fath drafodaeth, ond dywed y swyddogion yn blaen yn y Ddogfen Ymgynghorol (4.9) na byddai ffedereiddio'n ateb y problemau sylfaenol. Os barn y swyddogion yw nad yw ffedereiddio'n ateb gofynion addysgol a defnydd adeiladau, beth yw diben ei godi'n opsiwn ? Mae'r swyddogion wedi gwrthod ffedereiddio'n opsiwn ym mhob achos ers degawd, ac y mae'n amlwg bellach fod y gwrthwynebiad yn ddogmataidd, nid yn seiliedig ar amgylchiadau unigol. Nid yw'r Cyngor felly'n alluog i wneud asesiad opsiynau gwrthrychol yn yr achos hwn.

2(6) Credwn y byddai creu ffederasiwn o ysgolion Mynyddcerrig, Bancffosfelen a Phontyberem yn creu uned addysgol gref tra'n cadw presenoldeb addysgol yn y pentrefi ac felly ymlyniad holl-bwysig rhieni a chymunedau at addysg y plant. Gwelwyd mewn cymunedau cyffelyb dystiolaeth fod yr ymlyniad hwn yn dirywio pan dynnir ysgol allan o bentref trwy amharodrwydd rhieni i wasanaethu wedyn yn llywodraethwyr. Trwy gronni arbenigedd athrawon y 3 ysgol fe ellid cyflwyno profiad addysgol eang i'r plant. Mae'r ysgolion hefyd yn ddigon agos at ei gilydd i'r plant ddod at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau penodol ac felly dderbyn profiadau mwy amrywiol nag sy'n digwydd mewn ysgol gonfensiynol un-safle.

2(7) Byddai hefyd arbedion ariannol sylweddol o greu strwythur staff integreiddiedig o dan un pennaeth, a gellid canola llawer o ddatblygiadau cyfalaf ar un safle. Gan fod cyflwr adeilad Mynyddcerrig mor dda (Adran 2.2) gyda'r cyfleusterau sylfaenol oll, ni byddai angen buddsoddiad sylweddol o ran cyfalaf . Bydd yn sicr gapasiti dros ben o greu ffederasiwn o'r fath. Dylid ymateb yn gadarnhaol ac yn gorfforaethol i hyn trwy fod y Cyngor a'i bartneriaid ( ym meysydd addysg gymunedol, datblygu cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol, diwylliant ac iechyd ) yn astudio sut y gallant ddefnyddio'r capasiti a fydd ar gael ym Mynyddcerrig a Bancffosfelen i gyflwyno'u gwasanaethau yn y pentrefi ac felly hybu cynhwysiant cymdeithasol. O wneud hyn a defnyddio'r adeiladau at ddibenion ehangach nag addysg gynradd statudol yn unig, fe ellid chwilio am ffynonellau cyllidol pellach i gyflawni gwelliannau adeilad heb fynd yn dreth ormodol ar y Gyllideb Addysg Statudol.

2(8) Gwrthwynebwn yr honiad a wnaed - yn y cyfarfodydd ymgynghori nid yn y ddogfen - na all ffederasiwn weithredu'n llwyddiannus rhwng un safle mawr a dau safle llai o faint. I'r gwrthwyneb, dyma fodel sydd â photensial mawr ar gyfer ffederasiwn. Yn hytrach na bod perygl o ddiwylliant o gystadleuaeth rhwng safleoedd gweddol gyfartal, byddai yma un safle ganolg gyda 2 safle lloeren gyda hyblygrwydd trefnu o flwyddyn i flwyddyn a chanoli datblygiadau.

3(1) Gwrthwynebwn yn gryf hoff opsiwn (9) y swyddogion o gau'r ysgol gan ddanfon y plant i Bontyberem. Mae profiad blaenorol yn y sir o ran canoli addysg yn dangos amharodrwydd rhieni i ddanfon eu plant wedyn at yr ysgol a wthir arnynt gan yr Awdurdod, ac y mae'r drwgdeimlad a achosir yn niweidiol i addysg yn yr ardal ac hefyd i'r ysgol ganolog.

3(2) Ni sefydlwyd yn y ddogfen unrhyw reswm addysgol dros gau'r ysgol a throsglwyddo'r plant i ysgol ganolog. I'r gwrthwyneb, dangoswyd fod yr ysgol wedi dod allan o Fesurau Arbennig ac yn dechrau llwyddo'n dda'n addysgol. Sinicaidd iawn yw symudiad ar ran y Cyngor i gau ysgol sydd wedi ymdrechu mor lwyddiannus. Wrth gwrs na all trefniant dros dro gydag ysgol arall barhau am byth - mae hwn yn rheswm dros sicrhau sail barhaol,sy'n deg i bob parti, i gydweithrediad rhwng yr ysgolion yn hytrach nag yn rheswm dros derfynu cydweithio.

3(3) Dadleuwn y gall ddanfon plant ifainc iawn allan o'u cymuned i dderbyn addysg babanod fod yn niweidiol iawn i'w haddysg gynnar. Mae digon o data ar gael erbyn hyn o gymunedau pentrefol sydd wedi colli'u hysgolion. Gellid cymharu cyrhaeeddiadau addysgol y plant hyn gyda phlant cyffelyb sydd o hyd mewn ysgolion pentref. Mae'n anfaddeuol fod y Cyngor yn prysuro mlaen'r effaith ar addysg y plant.

3(4) Byddai cau Ysgol Mynyddcerrig yn amddifadu plant 3-4 oed yn yr ardal yn y dyfodol a gyfnos sylfaen holl-bwysig addysg onibai fod eu rhieni gyda'r adnoddau ariannol i'w cludo at ysgol ganolog gan nad oes hawl ganddynt deithio ar fws tan 5 oed.

3(5) Mae'n gwbl anfaddeuol hefyd fod y Cyngor yn cynnig cau'r ysgol heb wneud unrhyw astudiaeth effaith ar y gymuned leol. Ni all hyn fod yn gyson ag amcan gorfforaethol y Cyngor o "ddiogelu cymunedau Cymraeg". Eto, mae digon o data ar gael bellach o gymunedau eraill sydd wedi colli'u hysgolion i astudio'r effaith - yn enwedig ar ymwneud y plant a'i gilydd a'r effaith ar y rhan y mae teuluoedd ifainc yn chwarae ym mywyd y gymuned leol.

3(6) Nid oes chwaith unrhyw ddadansoddiad o effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg. Mae'n wir fod Ysgol Pontyberem hefyd yn ysgol category "A" ond, o golli'r ysgol leol, mae'nanochel y bydd rhai rhieni'n symud eu plant at ysgolion eraill mewn trefi yn agos at eu mannau gwaith ac fe'u collir i addysg Gymraeg.

3(7) Yn bennaf oll, gwrthwynebwn yr opsiwn o gau'r ysgol gan ei fod yn amlwg yn groes i farn rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol. Rhaid i Awdurdod gyfrifol gydweithio gyda rhieni a llywodraethwyr, neu mae'n cronni problemau iddi'i hunan at y dyfodol.

4(1) Dychwelwn yn olaf at ein cwyn nad yw hon yn ddogfen ymgynghori ddilys. Ymdrinir gyda'r 8 opsiwn honedig cyntaf yn y Ddogfen

Ymgynghorol gyda 4/5 brawddeg bob un ar ffurf tenblad amaturaidd tra ymhelaethir ar hoff opsiwn 9 y Cyngor.

4(2) Wrth drin yr opsiynau, cyfeirir yn unig at y ffeithiau a'r dadleuon hynny sy'n cryfhau safbwynt y Cyngor o ran opsiwn 9. Gadewir allan popeth arall bad sy'n gweddu a safbwynt y Cyngor e.e.1 - nid yw adran 2.3 yn cyfeirio at ffedereiddio fel ateb potensial i nifer isel o ddisagyblion, e.e.2 - nid yw Adran 2.5 yn cyfeirio at ddatblygiad nifer sylweddol o dai fforddiadwy yn y pentre wrth gyfeirio at leoedd gormodol yn yr ysgol, e.e3 - trafodir yn unig sut y gellir estyn cyfleodd dysgu'r plant yn unig trwy eu trosglwyddo i ysgolion eraill yn hytrach na phwyso a mesur hefyd sut y gellid cyflawni hyn tu fewn i Fynyddcerrig. Yn anhygoel, mae'r adran hon yn awgrymu y byddai cau'r ysgol yn adlewyrchu dewis rhieni !

4(3) Ni ellir derbyn fod yma unrhyw ymdrech broffesiynol i asesu gwahanol opsiynau'n sail i ymgynghori agored nac ystyrlon, ac y mae'r diffyg trafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol yn cadarnhau na thrinwyd dyfodol y plant a'r gymuned o ddifri. Petai'r adnoddau ariannol gan wrthwynebwyr, buasai dilysrwydd yr holl broses yn cael ei herio'n llwyddiannus mewn llys barn. Mae'n amlwg mai unig fwriad y Bwrdd Gweithredol yw gwerthu mor fuan a phosibl adeiladau a thir llawer o'r ysgolion hyn i ran-dalu am eu cynlluniau datblygu. Dengys y ddogfen hon nad oes diddordeb gan y swyddogion mewn ymgynghori onest.

4(4) Ni dderbyniwn iddo fod yn briodol i'r Bwrdd Gweithredol ddod i benderfyniad (yn enwedig heb unrhyw drafodaeth !) ar fater mor ddifrifol sy'n effeithio'n sylfaenol ar addysg y plant a dyfodol y gymuned leol heb gyfeirio'r mater at y Cyngor llawn lle bynnag y bo gwrthwynebiad sylweddol i gynllun cau ysgol. Ni all y ffaith fod y Cyngor wedi cael un drafodaeth gyffredinol ar Strategaeth Moderneiddio Darpariaeth Addysg olygu fod mandad bellach gan y Bwrdd Gweithredol i gau unrhyw ysgol y cyfeiriwyd ato am 4 blynedd heb drafodaeth gan y Cyngor. Bydd amgylchiadau ysgolion a grwpiau ysgolion bob amser yn wahanol a bydd datblygiadau dros gyfnod o amser. Rhaid i'r cyngor llawn gael cyfle trafod pob achos lle bo gwrthwynebiad arwyddocaol. Mae hwn eto'n wendid angeuol yn y broses ymgynghori.

Am y rhesymau hyn oll, y mae Cymdeithas yr Iaith yn gwrthwynebu'r Hysbysiad Cau Ysgol Mynyddcerrig gan ystyried y byddai cau'r ysgol tan yr amgylchiadau hyn ac heb drafodaeth ddilys yn peryglu addysg y disgyblion, yn niweidiol I'r Gymraeg, yn gwawdio safonau proffesiynol swyddogion a ddylent wneud asesiadau opsiynau gwirfoddol, ac yn tanseilio pob ymddiried mewn prosesau ymgynghori.

Galwn ar y Cyngor Sir I dynnu'n ol yr Hysbysiad Cau ac I ddychwelyd yn yr hydref eleni at eu bwriad gwreiddiol I gael trafodaeth gydlynus ar ddarpariaeth addysg gynradd yn aMynyddcerrig/Bancffosfelen/Pontyberem. Os na bydd y Cyngor yn tynnu'n ol yr Hysbysiad Cau, apeliwn ar y Gweinidog Addysg I'w cyfarwyddo I dynnu'n ol yr hysbysiad ac I gychwyn trafodaeth ystyrlon ac agored ar ddyfodol addysg gynradd yn y 3 cymuned gyffiniol hyn.

Cymdeithas yr Iaith
Tachwedd 3ydd 2006